# PWYLLGOR PERSONÉL

**(O bell drwy Teams)**

| **Aelodau sy'n bresennol:** | **Dydd Iau, 7 Ionawr 2021** |
|---|---|
| **Cadeirydd :** | **Councillor D.Jones** |
| **Is-gadwirydd:** | **Councillor D.Cawsey** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, J.Hale, N.T.Hunt, J.Jones, R.G.Jones, S.A.Knoyle, E.V.Latham, S.Miller a/ac A.J.Taylor |
| **Aelodau di-bleidlais:** | Councillors C.Clement-Williams, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac L.Jones |
| **Swyddogion yn bresennol:** | K.Jones, C.Lewis a/ac N.Headon |

1. **TREFNIADAU UWCH REOLWYR**

Rhoddodd y Prif Weithredwr drosolwg i'r aelodau o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Mewn ymateb i ymholiadau aelod, esboniwyd y byddai gwaith ychwanegol yn cael ei wneud fel rhan o gynllunio adferiad i sicrhau bod ymagwedd gryfach at ddatblygu cymunedau. Byddai hyn yn sicrhau aliniad rhwng Cydlynu Ardaloedd Lleol a datblygu cymunedol arall a gwaith sy'n seiliedig ar leoedd ar draws y cyngor.

Holodd yr aelodau ai'r Gwasanaethau Cymdeithasol ddylai fod yn gyfrifol am Ddiogelwch Cymunedol.  Eglurodd y Prif Weithredwr fod gan y swyddogaeth synergedd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes. Ar y cyfan, roedd mwy o le yn debygol o fod ar gael yn y Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes ar hyn o bryd i gynnal y gwaith presennol. Esboniwyd nad oedd Diogelwch Cymunedol yn berthnasol i un maes yn unig, roedd yn cwmpasu agendâu'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.

Holodd yr aelodau a fyddai gwrthdaro o ran budd o ran y ffaith bod y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn cadeirio'r Grŵp

Llywodraethu Corfforaethol.  Sicrhaodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn cydlynu ac yn darparu goruchwyliaeth broffesiynol o drefniadau llywodraethu'r cyngor ac yn cymryd cyfrifoldeb am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyflwynir i'r Cabinet unwaith y flwyddyn ac a gymeradwyir hefyd gan y Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r broses o gyfrifo prosesau cyfrifon.

Cafwyd trafodaeth ynghylch cyfuno rolau Gwasanaethau Cyfreithiol, Gwasanaethau Democrataidd a Gwasanaethau Etholiadol.  Eglurodd y Prif Weithredwr fod gan y Gwasanaethau Democrataidd berthynas weithredol agos â'r Gwasanaethau Cyfreithiol, a oedd yn cynnwys cyswllt eang rhwng Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd.  O ran y Gwasanaethau Etholiadol, tynnwyd sylw at y ffaith bod gan y cyngor Reolwr Etholiadau profiadol, ond am resymau cynllunio olyniaeth a chynllunio cadernid byddai'r cynigion yn caniatáu i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol gymryd mwy o ran yn y gwaith hwn.

Holodd yr aelodau a fyddai’r cynigion yn cael effaith ar gyflog swyddogion. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw effeithiau o'r fath yn deillio o'r cynigion ar gyfer y Penaethiaid Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwyr yr effeithiwyd arnynt.

**PENDERFYNWYD:**  cymeradwyo'r argymhellion canlynol:

1. Dileu swydd y Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif Swyddog Digidol.

2. Creu swydd newydd ar raddfa pennaeth gwasanaeth, sef y Prif Swyddog Digidol, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Cyllid a’r Gwasanaethau Corfforaethol.

3. Bod y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gydraddoldebau a Gwasanaethau Corfforaethol yn cael eu hawdurdodi i baratoi disgrifiad swydd a manyleb person addas ar gyfer rôl y Prif Swyddog Digidol ac i gychwyn y prosesau sy'n angenrheidiol i recriwtio person addas i'r rôl.

4. Caiff y gwaith hwnnw o reoli'r Is-adran Gwasanaethau Digidol ei ymgorffori ym mhortffolio'r Prif Swyddog Digidol.

5. Bydd datblygu Strategaeth Creu Incwm y cyngor yn rhan o

rôl y Pennaeth Cyllid. Trosglwyddo rheolaeth llinell y Cydlynydd Masnachol i'r Pennaeth Cyllid. Bydd y Pennaeth Cyllid hefyd yn gyfrifol am gadeirio Grŵp Llywio'r Rhaglen Gyfalaf ac adrodd i'r Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol ar faterion rhaglenni cyfalaf.

6. Diwygio portffolio'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol i gynnwys cyfrifoldeb am gadeirio'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, trosolwg o'r gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gweithgareddau cysylltiedig; ac ymgorffori cyfrifoldebau'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.

7. Diwygio rôl y Rheolwr Strategol ar gyfer Polisi a Gwasanaethau Democrataidd i ddileu'r cyfrifoldeb am y Gwasanaethau Democrataidd a’r Gwasanaethau Etholiadol ac i gynyddu lefel
cyfrifoldeb y rôl ar gyfer y swyddogaethau gweddilliol. Ail-ddynodi'r swydd yn Rheolwr Strategol ar gyfer Polisi a Chymorth Gweithredol.

8. Ail-ddynodi Pennaeth yr Adnoddau Dynol yn Bennaeth Datblygiad Dynol a Sefydliadol, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Bydd y rôl yn cynnwys
cyfrifoldebau presennol y Pennaeth Adnoddau Dynol ond hefyd yn cynnwys bod yn rheolwr llinell y Rheolwr Strategol ar gyfer Polisi a Chymorth Gweithredol

9. Ail-ddynodi Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol yn Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr. Bydd y rôl yn cynnwys swyddogaethau presennol Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol ond caiff ei hehangu i gynnwys bod yn rheolwr linell i'r Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

10. Newid rheolwr linell y Partneriaethau Rheolwyr Strategol a Chydlyniant Cymunedol gyda'r
swydd a bod y gweithlu/portffolio cysylltiedig yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyfranogiad.

**CADEIRYDD**